------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Hybrid**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mehefin 2022

Amser: 14.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru


## Rhag-gyfarfod preifat a chofrestru (14.00 - 14.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(14:30)

## 2 Papurau i'w nodi

(14:30)

**2.1 Gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ynghylch y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid**

(Tudalennau 1 - 4)

**2.2 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar graffu blynyddol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

(Tudalennau 5 - 7)

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch gwaharddiadau ar eitemau plastig untro**

(Tudalennau 8 - 12)

**2.4 Llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hawliau Dynol ynghylch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is**

(Tudalennau 13 - 30)

**2.5 Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch ffoaduriaid o Wcrain**

(Tudalennau 31 - 35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (iv) ac (ix) i wahardd y cyhoedd o eitem 4 a 6 ar yr agenda

(14:30)

## 4 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): briff technegol

(14:30-15:00)

Neil Surman - Dirprwy Gyfarwyddwr - Partneriaeth Gymdeithasol

Sue Hurrell - Pennaeth Caffael Gwaith Teg

Neil Buffin - Dirprwy Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Cyfreithiol

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) [Fel y'I cyflwynwyd]

Memorandwm esboniadol

**Egwyl (15:00-15:15)**

## 5 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): sesiwn dystiolaeth weinidogol

(15:15-16:45) (Tudalennau 36 - 75)

Hannah Blythyn, Dirprwy Weinidog, Partneriaeth Gymdeithasol

Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Partneriaeth Gymdeithasol

Sue Hurrell, Pennaeth Caffael Gwaith Teg

Neil Buffin, Dirprwy Gyfarwyddwr - Gwasanaeth Cyfreithiol

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) [Fel y'I cyflwynwyd]

Memorandwm esboniadol

## 6 Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru): ystyried y dystiolaeth

16:45-17:00

Eitem 2.1

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

18 Mai 2022

Annwyl Jane

Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad undydd byr ar brofiadau yn y system cyfiawnder troseddol, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc sydd ag anghenion o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu.

I'n helpu gyda'n hymchwiliad, a fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y cynnydd o ran gweithredu'r Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid, a'r ffocws ar fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hynny.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 1 Mehefin 2022.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

25 Mai 2022

Annwyl Jenny,

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu agwedd 'plentyn yn gyntaf' at gyfiawnder ieuenctid, gan sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn seiliedig ar anghenion.

Ar 25 Mai, cyflwynais yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyflawni'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod Datganiad Ysgrifenedig. Roedd y diweddariad hwn yn cyd-daro â chyhoeddi ein Cynlluniau Gweithredu diweddaraf. Mae'r cynlluniau yn tynnu sylw at yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a'r cynnydd parhaus a wneir ar y cyd â'n partneriaid yn erbyn ymrwymiadau'r Glasbrintiau.

Mae gan dair o'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid gysylltiadau agos iawn ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu:

- Gwella gweithgarwch atal, yn enwedig o ystyried effaith bosibl y pandemig COVID parhaus ar iechyd a llesiant plant
- Datblygu dull sy'n ystyriol o drawma ar draws gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- Meithrin gweledigaeth ar gyfer dyfodol darpariaeth sefydliadau diogel i ieuenctid yng Nghymru

Mae gwaith ar Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wedi'i ymwreiddio ar draws y tair ffrwd waith, ac mae cynnydd wedi'i wneud ar amrywiaeth o faterion. Er enghraifft, rydym wedi dechrau atgyfeirio unigolion i Wasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig y Glasoed Cymru Gyfan er mwyn elwa ar Reoli Achosion Uwch. Mae trefniadau Rheoli Achosion Uwch ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

i’w defnyddio gyda phlant sydd mewn cysylltiad â Thimau Troseddau Ieuenctid, boed hynny ar sail wirfoddol neu statudol.

Mae adroddiad gwerthuso Braenaru ‘y plentyn yn gyntaf’ wedi’i gyhoeddi gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion. Defnyddir y canfyddiadau i lywio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Atal Cyfiawnder Ieuenctid i Gymru, a fydd yn cynnwys ystyried Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

Ym mis Ionawr 2021, cytunodd y Cabinet ar weledigaeth ar gyfer dyfodol darpariaeth sefydliadau diogel i ieuenctid yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu model cyflenwi sy'n diwallu orau anghenion plant Cymru sydd angen gofal yn y systemau cyfiawnder a lles. Rydym am ddarparu gwasanaeth integredig, sy'n ystyriol o drawma, a all ymateb mewn modd hyblyg i anghenion cymhleth y plant hyn sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

Rydym wedi dyrannu £500,000 arall i raglen y Glasbrint a fydd yn cefnogi prosiectau sy'n cryfhau'r cysylltiadau rhwng menywod sydd yn y carchar a'u plant ac yn helpu i fwrw ymlaen i gyflwyno arferion sy'n ystyriol o drawma i Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid. Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn helpu i ddarparu gwelliannau ystyrlon ac aml-genhedlaeth i fywydau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Yr wythnos ddiwethaf, cyhoeddais leoliad y Ganolfan Breswyl i Fenywod yng Nghymru datganiad i'r wasg. Mae hon yn elfen allweddol o'n Glasbrint Cyfiawnder Menywod. Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn gwella bywydau menywod yng Nghymru, gan ddarparu dull mwy holistaidd, sy’n ystyriol o drawma, o ddarparu gwasanaethau i fenywod a allai ddod i gysylltiad â’r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Ar ôl ei sefydlu, bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn darparu gwasanaeth therapiwtig ac adsefydlu i fenywod sy'n agored i niwed yn yr ardal leol. Bydd hyn yn cynnwys darparu cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu.

Ers cyhoeddi Cynllun Cyflawni *Siarad Gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu* ym mis Tachwedd 2020, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n gyflym i gyflawni ei hymrwymiad cyffredinol i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc drwy ddull newydd o hybu a chefnogi Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu plant a phobl ifanc.

Mae gan y cynllun cyflawni ymrwymiad clir i ymgorffori cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu effeithiol fel rhan o’r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid. Mae’n anodd pwysleisio’n union pa mor bwysig yw cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu i bobl ifanc sydd mewn sefydliadau diogel cyfiawnder ieuenctid.

Mae Cynllun Cyflawni Siarad Gyda Fi yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu. Bydd hyn yn lleihau'r risg y gwelir ymddygiad heriol a gwrthgymdeithasol ymhlith plant a phobl ifanc, ac felly byddant yn llai tebygol hefyd o ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae ein Cydgysylltwyr Cenedlaethol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu wedi hwyluso cysylltiadau rhwng Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd a chydweithwyr yn y Tîm Troseddu a Chyfiawnder yn Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Gweithiwyd yn agos gydag Estyn i ddatblygu hyfforddiant ar-lein i arolygwyr sy'n asesu'r ddarpariaeth addysg mewn sefydliadau diogel cyfiawnder ieuenctid. Mae'r

pecyn hyfforddi yn fyw ar fewnrwyd Estyn a bydd yn sicrhau bod arolygwyr yn ystyried y ddarpariaeth o gymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yng nghyd-destun y ddarpariaeth addysg.

At hynny, cynhaliodd Cydgysylltwyr Cenedlaethol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu gyfres o weithdai ar gymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer arolygwyr Estyn yn eu digwyddiad hyfforddi blynyddol yn 2021. Bydd y gweithdai hyn yn rhan o system hyfforddi a monitro barhaus a fydd yn canolbwyntio’n benodol ar ganlyniadau.

Yn gywir,

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Mai 2022

Annwyl Ms Rathbone AS

***Ymateb i adroddiad craffu blynyddol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar weithgarwch Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: diweddariad***

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi rhoi ymateb i argymhellion 2 a 4 yn yr adroddiad, sy'n cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Yn rhinwedd fy swydd fel yr Ysgrifennydd Parhaol, dyma fi'n darparu'r ymateb i argymhelliad 3 isod, sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

Yours,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Copïau at: y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Adroddiad craffu blynyddol ar weithgarwch Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Diweddariad**

**Ymateb Llywodraeth Cymru (Mai 2022)**

**Argymhelliad 3**

*Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n defnyddio hyfforddi a datblygu proffesiynol i sicrhau bod ei chyflogeion yn deall y Ddeddf yn llawn ac yn cydymffurfio â hi, fel nad yw'n ymddangos bod angen dibynnu gymaint ar swyddfa'r Comisiynydd.*

**Ymateb: Derbyn**

Trwy ein gwaith ar allu mewn perthynas â pholisi, rydym wedi datblygu polisi newydd ar gyfer darparu cynnig dysgu a datblygu, sydd â'i gynnwys wedi ei ddiweddaru i sicrhau bod pum dull o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog iddo. Mae hyn yn adlewyrchu ein dysgu parhaus o ran sut mae'r Ddeddf yn galluogi'r gwasanaeth sifil i helpu Gweinidogion i gyflawni ar gyfer Cymru. Mae'r rhaglen wyth modiwl ar gael i bob aelod o staff. Rydym hefyd wedi datblygu rhaglenni i ddarparu addysg bolisi bwrpasol ar gyfer uwch-arweinwyr newydd, sy'n canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth drylwyr o'r Ddeddf a'i rhwymedigaethau perthnasol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi adolygu a diweddaru'r holl ddysgu arbenigol sy'n ymwneud â pholisi, mewn perthynas â phynciau megis trin a thrafod syniadau hyblyg ac arloesol ar gyfer y dyfodol a chyd-gynhyrchu, er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn cyfeirio mewn modd priodol at y Ddeddf.

Ochr yn ochr â'n cynnig diwygiedig a'n rhaglen newid ymddygiad, rydym wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer staff newydd sy'n gweithredu fel cyflwyniad i'r Ddeddf a'r pum dull o weithio. Rydym yn parhau i adolygu ac i sicrhau ansawdd ein cynnig dysgu yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y dysgwr mewn perthynas â'r Ddeddf.

Yn ddiweddar, fe wneuthum lansio LlC2025, ein rhaglen tair blynedd ar gyfer datblygu'r sefydliad, a phlatfform ar gyfer cynnal sgwrs â'n gweithlu ynghylch y newidiadau a'r gwelliannau y mae angen inni eu gwneud er mwyn inni allu gweithredu mewn byd ôl-bandemig ac ôl-UE. Drwy LlC2025, rydym yn cydnabod y bydd cynaliadwyedd yn egwyddor graidd o ran sut yr ydym yn gweithio heddiw ac yn y dyfodol. Mae gweithgarwch ymgysylltu sylweddol â chyflogeion yn digwydd er mwyn llywio ein dull gweithredu a sicrhau bod y gweithgareddau a roddir ar waith gennym fel rhan o LlC2025 yn helpu'r staff i sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf a'r pum dull o weithio yn ganolog i'n hymddygiad a phopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r dull gweithredu hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw'r egwyddor ganolog ar gyfer trefnu gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro i ba raddau y mae'r staff yn rhoi Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf (y pum dull o weithio) ar waith yn ymarferol drwy ei Rhaglen Ymchwil Gweithwyr mewnol, yn fwyaf diweddar ym misoedd Awst-Medi 2021. At ei gilydd, roedd canlyniadau'r arolwg yn dangos bod cyfran uchel o'r staff yn gweithredu'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy mewn modd ymarferol, yn benodol o ran sut i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, ac ystyried effeithiau tymor hir eu gwaith. Mae hyn wedi gwella yn y rhan fwyaf o ymddygiadau ers iddynt gael eu mesur ddiwethaf yn 2020.

Fel gwasanaeth sifil, rydym yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ac arbenigwyr wrth ddatblygu a gweithredu polisïau, ac rwy'n ddiolchgar am y ddealltwriaeth a'r cymorth y mae'r Comisiynydd wedi eu darparu i sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd mwy cynaliadwy.

Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno oddeutu 15% o gyfanswm y ceisiadau a gafwyd gan ei swyddfa ers mis Mai 2018. Mae angen dadansoddi ymhellach i wybod beth yw natur y ceisiadau hyn i weld beth yw'r gwir sefyllfa o ran yr honiadau bod dibyniaeth sylweddol ar y Comisiynydd o du Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y mae'r ceisiadau hyn am gymorth yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth o sut i gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae Swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiynydd er mwyn deall yn well natur a nifer y ceisiadau hyn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn creu darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei hadnoddau.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/1805/22

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig**

**Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

31 Mai 2022

Annwyl Llyr,

Ysgrifennaf mewn ymateb i lythyr dyddiedig 10 Mai oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o ran y gwaharddiadau plastigau untro a'r eithriad potensial o dan y Fframwaith drafft ar gyfer Adnoddau a Gwastraff (**gweler Atodiad A isod**).

Yn ystod 2020, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynlluniau i gyflwyno rheoliadau i wahardd neu gyfyngu ar werthu yr eitemau plastig untro hyn, sy'n cael eu taflu'n aml, i'r defnyddiwr terfynol:

- cytleri (gan gynnwys cyllyll, ffyrc, llwyau, gweill bwyta a sporks)
- platiau (gan gynnwys powlenni, dysglau a hambyrddau)
- troellwyr diodydd
- gwellt yfed
- cynwysyddion bwyd a diod wedi'u gwneud o bolystyren wedi'i ehangu
- ffyn cotwm plastig
- ffyn balwnau, ac
- eitemau wedi'u gwneud o blastig ocso-bioddiraddiadwy

Ailadroddodd ein Rhaglen Lywodraethu ein hymrwymiad i ddeddfu er mwyn diddymu defnyddio plastigau untro sy'n cael eu taflu'n aml. Mae'n ymrwymiad gennyf o hyd ddod â deddfwriaeth felly ymlaen yn gynnar yn y tymor Senedd hwn.

O ran cais Llywodraeth yr Alban am eithriad o dan y Broses Fframweithiau Cyffredin, o dan UKIMA, i gael eithriad mae'n ofynnol cael Offeryn Statudol, y mae'n rhaid cael ei osod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn Senedd y DU. Rwyf bellach wedi derbyn llythyr oddi wrth Weinidog Prentice o Lywodraeth y DU i gael y cydsyniad ffurfiol oddi wrth Weinidogion Cymru (fel sy'n ofynnol dan UKIMA) a fwriadaf ei roi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddai unrhyw gydsyniad heb ragfarn o ran yr ymgyfreitha UKIMA parhaus.  Ein safbwynt o hyd yw nad ydym yn ystyried bod gan UKIMA yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei chael. Drwy gydsynio ag Offeryn Statudol eithriadau Llywodraeth y DU, nid ydym yn newid y safbwynt hwn. Tra bod yr ymgyfreitha ar y gweill, rwy'n ystyried bod angen cydweithio ac ymgysylltu â'r broses eithriadau.

Yn sgil yr adborth i'n hymgynghoriad, rwy hefyd yn cynnig cynnwys gwaharddiad ar werthu weips sy'n cynnwys plastig a bagiau siopa plastig untro yn y ddeddfwriaeth a gynllunnir. Mae fy swyddogion yn cynnal adolygiad tystiolaeth cyflym ar hyn o bryd ac maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid am gynnwys yr camau ychwanegol.

Rwyf wedi copïo'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**ATODIAD A**

***1. A allwch roi syniad pryd y bydd y darpar Fframwaith ar gyfer Adnoddau a Gwastraff ar gael i graffu arno ac egluro'r rheswm dros yr oedi parhaus cyn ei gyhoeddi?***

> **Ateb:** Disgwylir y caiff y Fframwaith ar gyfer Adnoddau a Gwastraff ei gytuno arno ar lefel swyddogion yn ystod yr haf. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd yn rhaid wrth gliriad Gweinidogol portffolio oddi wrth bob un o'r pedair Llywodraeth er mwyn cyhoeddi'r fframwaith i graffu arno.

***2. Er ein bod yn cydnabod bod y cais am yr eithriad wedi deillio o Lywodraeth yr Alban, mae'n ymddangos y bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar yr eithriad i fwrw ymlaen â'i chynigion i wahardd plastigau untro. A allwch gadarnhau bod hyn yn wir?***

> **Ateb:** Fel yr amlinellaf yn fy llythyr uchod, ein safbwynt o hyd yw nad ydym yn ystyried bod gan UKIMA yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei chael, a thrwy gydsynio ag Offeryn Statudol eithriadau Llywodraeth y DU, nid ydym yn newid y safbwynt hwn.
>
> Fodd bynnag, tra bod yr ymgyfreitha ar y gweill, rwy'n ystyried bod angen cydweithio ac ymgysylltu â'r broses eithriadau o hyd.

***3. Yn absenoldeb y Fframwaith Cyffredin ar gyfer Adnoddau a Gwastraff, a allwch amlinellu'r prosesau ar gyfer ystyried a chytuno ar yr eithriad?***

> **Ateb:** Gan god y Fframwaith yn weithredol ar lefel swyddogion, roedd y broses a ddilynwyd fel y gosodir yn y Broses Eithriadau UKIMA a rannwyd yn barod gyda'r Pwyllgorau.

*Yn ei llythyr, mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd yn cyfeirio at siom Llywodraeth Cymru ynghylch "natur gul yr eithriad".*

***4. A allwch roi manylion am yr eithriad ac egluro ym mha ffordd y mae'n gulach nag yr oeddech chi a'ch gweinidog cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban wedi gobeithio amdano?***

> **Ateb:** O dan amodau UKIMA, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu rhoi eithriad cul a gyfyngir i'r eitemau yn rheoliadau Llywodraeth yr Alban.
>
> Mae'r siom, a rannaf gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, oherwydd, o dan y fframweithiau Cyffredin ac UKIMA, bydd unrhyw wyro polisi pellach yn y maes polisi hwn yn golygu dychwelyd at gychwyn y broses negodi eithriadau, gan ddwyn amser oddi ar ddatblygu'r polisïau eu hunain.
>
> Fel yr amlinellais uchod, ein safbwynt yw nad ydym yn ystyried bod gan UKIMA yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei chael. Eto i gyd, tra bod yr ymgyfreitha ar y gweill, rydym yn cydnabod bod angen cydweithio ac ymgysylltu â'r broses eithriadau.

*Mae'r Broses ar gyfer ystyried eithriadau i Farchnad Fewnol y DU mewn meysydd Fframwaith Cyffredin yn nodi bod y pedair llywodraeth yn gallu defnyddio'r mecanwaith datrys anghydfodau o fewn y Fframwaith perthnasol os ydynt yn dymuno.*

***5. A allwch egluro a ddefnyddiwyd y mecanwaith datrys anghydfodau gyda'r nod o sicrhau eithriadau ehangach? Os na, pam felly?***

> **Ateb:** Gallaf gadarnhau y'i defnyddiwyd.

***6. A allwch egluro a fydd "natur gul yr eithriad" yn effeithio ar gwmpas y gwaharddiad arfaethedig ar blastigau untro yng Nghymru, ac os felly, sut y bydd yn effeithio arno?***

> **Ateb:** Fel y nodwyd uchod, ein safbwynt o hyd yw nad ydym yn ystyried bod gan UKIMA yr effaith ar gymhwysedd y Senedd y mae'n honni ei chael. Gan hynny, ni fydd natur gul yr eithriad yn effeithio ar unrhyw waharddiad arfaethedig ar blastigau untro yng Nghymru.

*O dan y Ddeddf, mae angen cymeradwyaeth dau Dŷ Senedd y DU ar gyfer diwygiadau i'r atodlenni sy'n cynnwys eithriadau. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am sicrhau bod rheoliadau drafft yn cael eu rhoi gerbron Senedd y DU. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn am gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig.*

**7. Pa drafodaethau ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch amseriad rheoliadau drafft a fydd yn rhoi effaith i'r eithriad?**

> **Ateb:** Mae Llywodraeth yr Alban wedi gosod rheoliadau yn barod sy'n gwahardd rhestr o eitemau plastig untro a ddaw i rym ar 2 Mehefin 2022. Deallaf fod Llywodraeth y DU yn bwriadu gosod yr Offeryn Statudol mor agos i'r dyddiad hwnnw a bo modd.

**8. A allwch gadarnhau y byddwch yn rhoi gwybod i'r Senedd pan gaiff y rheoliadau drafft eu gosod gerbron Senedd y DU?**

> **Ateb:** Gallaf, paratoaf Ddatganiad Ysgrifenedig.

**9. A allwch gadarnhau y byddwch yn ceisio barn y Senedd cyn penderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y rheoliadau? Os felly, a allwch roi syniad pryd y mae hyn yn debygol o fod a pha broses rydych yn bwriadu ei dilyn?**

> **Ateb:** O ran cais Llywodraeth yr Alban am eithriad o dan y Broses Fframweithiau Cyffredin, o dan UKIMA, i gael eithriad mae'n ofynnol cael Offeryn Statudol, y mae'n rhaid cael ei osod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd yn Senedd y DU. Rwyf bellach wedi derbyn llythyr oddi wrth Weinidog Prentice o Lywodraeth y DU i gael y cydsyniad ffurfiol oddi wrth Weinidogion Cymru (fel sy'n ofynnol dan UKIMA) a fwriadaf ei roi.
>
> Rwyf wedi cynnwys Pwyllgorau Senedd eraill â buddiant posibl i'r cydsyniad hwn yn yr ymateb hwn.

*Ym mis Medi 2021, gwnaethoch ddweud wrthym y byddai ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y gwaharddiad arfaethedig ar blastigau untro, gan gynnwys y camau nesaf, yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2021. Eto, ym mis Rhagfyr 2021, gwnaethoch ddweud y byddai'r ymateb yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022. Nid yw'r ymateb wedi'i gyhoeddi eto.*

***10. A allwch gadarnhau amseriad cyhoeddi'r ymateb ac egluro'r rheswm dros yr oedi parhaus?***

**Ateb**: Dymunaf allu rhannu cynlluniau manwl ac amserlen ddangosol am sut rwy'n bwriadu bwrw ymlaen â'r polisi hwn yng ngoleuni ymatebion yr ymgynghoriad.  Fe welwch yn fy ymatebion uchod pam nad oedd modd imi ei wneud hyd yn hyn.

Rhagwelaf gyhoeddi'r ymatebion dros yr haf.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb a

Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Trwy e-bost

Dydd Iau 09 Mehefin 2022

Annwyl Jenny,

## Profiadau o faes iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is

Ysgrifennaf atoch yn eich swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i roi gwybod ichi am gyhoeddiad ein hadroddiad ar anghydraddoldeb hiliol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol heddiw. Atodaf gopi o'r adroddiad, gyda'r crynodeb gweithredol ar dudalennau 5-12. Atodaf y papur briffio Cymru hefyd, gyda sylwadau penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yng Nghymru.

Yn 2020, lansiwyd yr ymchwiliad gennym i ddeall profiadau gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is ledled Prydain yn dilyn tystiolaeth o anghydroddeldebau o ran hil yn ystod y pandemig.

Yn dilyn ymchwil helaeth a chasglu tystiolaeth gan weithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is yn y sector, yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol, rydym wedi datgelu nifer o heriau sy'n wynebu'r gweithlu. Mae'r rhain yn cynnwys triniaeth wahaniaethol ar sail hil, gan gynnwys aflonyddu hiliol a gwahaniaethu; diffyg ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth sylfaenol; nifer uchel o gontractau dim oriau; a mynediad gwael i hyfforddiant a chyfleoedd dilyniant.

Mae'r comisiynu allan o ofal cymdeithasol i oedolion, a rhai swyddi ym maes iechyd, wedi arwain at fwy o waith ansicr a chyflogau ac amodau a thelerau gwaeth nag ar gyfer y rhai a chyflogir yn uniongyrchol i'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar swyddi sydd gyda thystiolaeth ledled y DU o

effaith anghymesur ar y rhai hynny sydd mewn swyddi ar gyflog, lle mae llawer ohonynt o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Hefyd, canfuom fylchau data difrifol, yn enwedig yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion. Gallai data coll guddio graddfa'r gwahaniaethu yn erbyn gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is. Rydym yn annog cyrff cyhoeddus i gasglu gwell wybodaeth ynghylch eu gweithlu er mwyn cyflawni eu Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus

Rydym wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru; darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol; rheoleiddwyr ac eraill i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gennym. Rydym yn hyderus, wrth fynd i'r afael â'r argymhellion, y gallwn wneud llawer er lles bob gweithiwr ar gyflog is yn iechyd a gofal cymdeithasol gyda'n gilydd, gan gynnwys y rhai hynny o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

Gofynnaf yn garedig am rannu'r adroddiad a phapur briffio Cymru gydag aelodau y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rwyf o'r farn y bydd o gryn ddiddordeb iddynt.

Yn olaf, croesawn cyfle i gyfarfod â chi i drafod canfyddiadau ein hymchwiliad ymhellach. Rhowch wybod i ni os y bydd hyn o ddiddordeb. Cysylltwch â ginger.wiegand@equalityhumanrights.com i wneud trefniadau.

Yr eiddoch yn gywir,

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafell 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3,
East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5EZ

Room 3.18 / 3.19, The Maltings, House 3,
East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**

Ruth Coombs

Pennaeth Cymru, Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Ffôn uniongyrchol:** 029 2044 7720

Bydd y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

The Commission welcomes correspondence in Welsh or English.

**Ff/T:** 029 2044 7710
**E:** correspondence@equalityhumanrights.com

Ystafell 3.18 / 3.19, The Maltings, Tŷ 3,
East Tyndall Street, Caerdydd, CF24 5EZ

Room 3.18 / 3.19, The Maltings, House 3,
East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EZ

**equalityhumanrights.com**

Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

# Profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is





equalityhumanrights.com

# Cydnabyddiaeth



Diolchwn i’r gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal iechyd ymroddedig i oedolion, gan gynnwys aelodau Rhwydwaith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig GIG Lloegr, a ymatebodd i’n galwadau am dystiolaeth neu a fynychodd gyfweliadau a grwpiau ffocws. Buont yn onest yn rhannu eu profiadau a’u triniaeth yn y gwaith yn ystod cyfnod heriol iawn.

Rydym yn ddiolchgar i sefydliadau cydraddoldeb hiliol, elusennau, arolygiaethau, undebau llafur, cyrff cyflogwyr, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, llywodraethau a chyrff hyd braich a gyfrannodd dystiolaeth werthfawr i’n hymchwiliad wrth iddynt ymateb i heriau aruthrol COVID-19.

Diolchwn hefyd i aelodau ein Panel Cynghori Arbenigol a roddodd yn hael o’u hamser a’u harbenigedd i ni, ac a helpodd i lunio ein gwaith casglu tystiolaeth.

# Cynnwys


**Cydnabyddiaeth** 2

**Rhagair** 4

**Crynodeb gweithredol** 5

Yr hyn a ganfuom 8

Ein hargymhellion ar gyfer newid 13

**Cysylltiadau** 14

# Rhagair



Rhoddodd y pandemig coronafeirws (COVID-19) straen aruthrol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Prydain. Llafuriodd y staff yn ddiflino i gefnogi ein hiechyd a'n lles, yn aml heb allu gweld na gofalu am eu hanwyliaid eu hunain. Roeddent yn wynebu bygythiad haint ar bob shifft, a chollodd llawer eu bywydau. Mae aberthau wedi'u gwneud na ddylid eu hanghofio. Mae ein diolch yn fawr iddynt oll.

Effeithiwyd yn anghymesur ar staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen ar gyflog is gan afiechyd a marwolaeth trwy ddâl COVID-19 yn y gwaith. Mae pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi'u gorgynrychioli yn y rolau hyn, sy'n cynnwys glanhawyr, gofalwyr, porthorion a gweithwyr diogelwch. Mae data gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi marw o COVID-19 ar gyfraddau uwch o gymharu â phobl Gwyn Prydeinig.

Ychydig o ymchwil sydd ar brofiadau staff cymorth ar gyflog is yn y GIG neu weithwyr gofal rheng flaen. Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn i unioni hyn. Roedd yn heriol casglu tystiolaeth. Roeddem dan gyfnod clo, ac roedd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu pwysau difrifol. Daeth yn amlwg yn fuan bod gweithwyr ar gyflog is yn cael eu tangynrychioli mewn data swyddogol.

Serch hynny, fe wnaethom ddarganfod rhai materion a oedd yn peri pryder. Er gwaethaf y gwasanaethau hanfodol y mae'r gweithwyr hyn yn eu darparu, a'r risgiau a gymerant wrth ofalu amdanom ni a'n hanwyliaid, mae llawer yn gweithredu gyda chontractau gwaith ansicr neu fel staff achlysurol heb unrhyw gontractau o gwbl. Rydym yn annog llywodraethau a chyflogwyr i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn er mwyn gwella profiadau'r holl weithwyr ar gyflogau is, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
Bydd gweithredu ein hargymhellion yn helpu'r rhai a'n helpodd ni i gyd drwy'r pandemig.

Mae'n rhaid inni sicrhau bod amodau gwaith gweithwyr ar gyflogau is yn y sector hwn yn cael eu gwella ledled Prydain, a bod eu cyfraniad hanfodol i weithrediad ein heconomi a'n cymdeithas yn cael ei gydnabod.

**Y Farwnes Kishwer Falkner**

Cadeirydd Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

# Crynodeb gweithredol



Lansiwyd yr ymchwiliad hwn gennym i asesu'r driniaeth a phrofiadau gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd yr ymchwiliad yn cwmpasu Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) ac yn ystyried cyd-destunau gwahanol y systemau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithredu ym mhob gwlad. Mae ein canfyddiadau yn berthnasol i Brydain gyfan, oni nodir yn wahanol.

Yn gyffredinol, mae gweithwyr ar gyflog is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi cael mwy o amlygiad i COVID-19 na gweithwyr mewn sectorau eraill. Rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2022, roedd 57% o'r bobl yr adroddwyd eu bod wedi dal COVID-19 yn y gwaith yn dod o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2021, adroddodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod yr union ffigwr yn debygol o fod hyd yn oed yn uwch.[1]

Ar gyfer yr ymchwiliad hwn, roedd y meysydd yr aethom ati i'w harchwilio yn cynnwys:

- nifer yr oriau a weithiwyd
- polisïau, gweithdrefnau a diwylliant y gweithle
- y tasgau a neilltuwyd
- gallu gweithwyr i gael mynediad at iawn, a
- chyfleoedd hyfforddi a datblygu.

Mae **cylch gorchwyl llawn yr ymchwiliad hwn ar gael ar ein gwefan.**

Buom yn canolbwyntio ar y gweithlu lleiafrifoedd ethnig ar gyflog is, ac mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu yn golygu mai dim ond am y grŵp hwn o weithwyr y down i gasgliadau. Fodd bynnag, gellir cymhwyso rhai o'n canfyddiadau ar draws y gweithlu ar gyflog is yn gyffredinol, ac mae gweithredu'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn yn debygol o wella triniaeth a phrofiad yr holl weithwyr ar gyflog is yn y sectorau hyn.

[1] **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2021), Management Information: Coronavirus (COVID-19) disease reports** (ffigurau a gyhoeddwyd hyd at yr wythnos yn diweddu 23 Hydref 2021, a gyrchwyd yn Nhachwedd 2021).

Ni yw rheoleiddiwr cydraddoldeb a hawliau dynol Prydain. Mae ein pwerau hawliau dynol yn yr Alban yn ymestyn i faterion a gadwyd yn ôl. O dan adran 16 o Ddeddf Cydraddoldeb 2006, mae gennym bŵer i gynnal ymholiadau i ddarganfod mwy am faterion cydraddoldeb a hawliau dynol. Yn seiliedig ar ein canfyddiadau, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer newid a gwella polisi, arfer neu ddeddfwriaeth.

Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 (cyfraith gwrth-wahaniaethu Prydain), yn enwedig Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), a grëwyd o dan y Ddeddf. Mae'r PSED yn bodoli i ddod ag ystyriaeth o gydraddoldeb a chysylltiadau da i mewn i fusnes awdurdodau cyhoeddus o ddydd i ddydd. Mae'n cynnwys dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol, wedi'i hategu gan ddyletswyddau penodol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn ofynion ychwanegol a osodir ar lawer o gyrff cyhoeddus i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol yn well.

Yng Nghymru a'r Alban, mae rhai cyrff cyhoeddus hefyd yn ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED). Daw'r SED o Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010 a'i nod yw sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

### Ein diffiniad o ofal cymdeithasol

Yn yr adroddiad hwn rydym yn cyfeirio at ofal cymdeithasol fel unrhyw ofal preswyl neu nyrsio ffurfiol, gofal cartref (a elwir yn 'ofal yn y cartref' yn yr Alban) a gofal dydd i oedolion. Gall hyn fod yn ofal tymor hir neu fyr, a ddarperir gan y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector (er enghraifft, sefydliad gwirfoddol neu gymunedol nad yw'n breifat na chyhoeddus), ac a ariennir mewn unrhyw ffordd (gan gynnwys gofal a ariennir gan daliadau uniongyrchol). Nid ydym yn cynnwys gofal anffurfiol neu ddi-dâl. Defnyddir y term gofal cymdeithasol drwyddo draw i olygu gofal cymdeithasol oedolion.

### Ein diffiniad o leiafrif ethnig

Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'lleiafrifoedd ethnig' yn cyfeirio at:

- grwpiau ethnig cymysg neu luosog
- grwpiau Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- grwpiau Du neu Affricanaidd neu Garibïaidd neu Ddu Prydeinig, a
- grwpiau lleiafrifoedd ethnig Gwyn (cyfeirir atynt weithiau fel Gwyn arall).

Y grwpiau lleiafrifoedd ethnig gwyn sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn yw:

- Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
- Sipsiwn / Teithwyr Albanaidd, a
- phobl Wyn o unrhyw wlad y tu allan i'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon, gan gynnwys gwledydd Ewropeaidd.

Nid ydym wedi cynnwys y grwpiau ethnig Gwyn canlynol: Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gwyddelig Gogleddol, Gwyddelig neu Brydeinig.

Rhoddir ein cyfiawnhad dros y diffiniad hwn yn yr Atodiad. Mae'n cyd-fynd â **diffiniad Llywodraeth y DU o leiafrif ethnig**, sef 'pob grŵp ethnig ac eithrio'r grŵp gwyn Prydeinig', ac eithrio ein bod hefyd wedi eithrio Gwyn Gwyddelig ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Nid yw pob ffynhonnell yn yr adroddiad hwn yn defnyddio'r un diffiniad. Lle'r ydym wedi tynnu ar ffynhonnell sy'n cyfuno'r grŵp Gwyn arall â'r grŵp Gwyn Prydeinig, rydym wedi dweud hynny.

Mae diffiniadau eraill i'w cael yn ein **cylch gorchwyl**.

# Yr hyn a ganfuom

## Cyfyngiadau data

Fe wnaethom ni geisio a dadansoddi'n drylwyr yr holl ddata perthnasol a oedd ar gael. Nodwyd yn fuan gennym fod diffyg data gweithlu cadarn ar weithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is mewn rhannau o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Ym maes gofal cymdeithasol yn arbennig, mae dulliau o gofrestru gweithwyr a chasglu data yn amrywio ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, ac nid oes data ar gael ar driniaeth a phrofiad y gweithlu cyfan (hyd yn oed gweithwyr cofrestredig).

Roedd data gwell ar gael ar gyfer y sector iechyd, yn enwedig ar gyfer Lloegr. Cynhelir arolwg blynyddol o weithlu'r GIG o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan sefydliadau'r GIG, sy'n amrywio yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae nifer o gwestiynau o'r arolwg staff yn Lloegr yn rhan o **Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (WRES)** yn Lloegr. Fodd bynnag, nid oedd data ar gael ar gyfer gweithwyr nad oeddent yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y GIG. Nid yw arolygon staff y GIG yn dadansoddi'r ymatebwyr yn ôl gradd cyflog, felly nid oeddem yn gallu gwahaniaethu rhwng y ffordd y caiff gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is a chyflogau uwch eu trin. Yn ogystal, mae diffiniad y GIG o staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), at ddibenion y WRES, yn eithrio'r grŵp Gwyn arall.

Fel rhan o'n hymchwil ansoddol, cynhaliom gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda mwy na 90 o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar gyflog is. Roedd y rhain o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig, gan gynnwys grwpiau Ffilipinaidd, Du Affricanaidd a Gwyn, a nifer fach o staff Gwyn Prydeinig i sicrhau ein bod yn dal ystod lawn o safbwyntiau. Gwnaethom hefyd ofyn am gyflwyniadau gan weithwyr i'n galwad ar-lein am dystiolaeth, ac ymatebodd 53 o bobl. O ystyried yr anfanteision cymdeithasol a wynebir gan lawer o weithwyr ar gyflog is yn y sector hwn, ynghyd â phwysau'r pandemig COVID-19, nid yw'r gyfradd ymateb isel yn syndod ond dylid ei gadw mewn cof yn y canfyddiadau sy'n dilyn.

Rydym yn cydnabod cyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth ansoddol hon. Ni ddylai'r darllenydd gymryd yn ganiataol bod pob gweithiwr yn rhannu'r profiadau a adroddir yma. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn hynod o amrywiol a gallant gael profiadau gwahanol iawn. Gall rhai wynebu gwahaniaethu mwy difrifol neu amlwg nag eraill.

Drwy gasglu tystiolaeth o ffynonellau lluosog, rydym wedi gallu mynd i'r afael â rhai o gyfyngiadau'r data gweithlu presennol a chyflwyno'r darlun mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael o brofiadau a thriniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen gweithredu ar unwaith i wella casglu data ar y gweithlu hwn. Rydym yn gwneud argymhellion ar sut y dylid cyflawni hyn.

## Data anghyflawn

Oherwydd bod darlun anghyflawn o'r grwpiau o weithwyr a nodwyd ar gyfer yr ymchwiliad hwn ledled Prydain, nid yw eu triniaeth a'u profiadau yn ddigon hysbys, nac wedi'u mesur na'u monitro'n ddigonol. Mae cynllun gweithlu GIG Lloegr yn nodi camau gweithredu i gefnogi trawsnewid ar draws y GIG, ond nid oes ganddo ddata sylfaenol am y gweithlu i ddeall triniaeth a phrofiadau gweithwyr sy'n cael eu contractio'n allanol.

Mae goblygiadau cyfreithiol, o bosibl, i'r mater hwn. Gall casglu data cydraddoldeb cynhwysfawr a chywir, gan gynnwys y rheini yn eu gweithlu mewn rolau sy'n talu'n is, sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol a rolau a gomisiynir yn allanol, helpu cyflogwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED). Gall hyd yn oed darparwyr yn y sector annibynnol, y mae llawer ohonynt ym maes gofal cymdeithasol oedolion yn arbennig, fod yn destun y PSED os ydynt yn cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, neu os yw cyrff comisiynu yn pennu rhai polisïau neu weithdrefnau cydraddoldeb yn eu contractau.

Yng Nghymru a'r Alban, mae sefydliadau penodol sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a Chyd-fyrddau Integreiddio, â dyletswydd benodol ychwanegol i gasglu neu gasglu a defnyddio data gweithwyr. I'r sefydliadau hynny, byddai methiant i wneud hyn hefyd yn fethiant i gydymffurfio â dyletswyddau penodol y PSED. Rydym yn cydnabod bod diffygion data, a strategaethau i fynd i'r afael â hwy, yn amrywio ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban.

## Triniaethau a phrofiadau gwahanol yn y gwaith

Mae ein hymchwiliad wedi canfod nifer o bryderon ynghylch profiadau gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r ffordd y cânt eu trin. Daw ein canfyddiadau o amrywiaeth o ffynonellau, gan adlewyrchu gwahanol gyd-destunau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

### Profiadau o wahaniaethu

Fe wnaethom gomisiynu Prifysgol Caint i gynnal dadansoddiad ystadegol o ganfyddiadau arolwg staff GIG Lloegr yn 2019. Canfu hyn fod cyfran uwch o lawer o staff lleiafrifoedd ethnig yn dweud eu bod wedi dioddef gwahaniaethu oherwydd eu hethnigrwydd gan gleifion a'r cyhoedd, neu reolwyr a chydweithwyr, na staff Gwyn:

- dywedodd 18% o staff lleiafrifoedd ethnig ym mhob band cyflog ar draws y GIG eu bod wedi profi gwahaniaethu gan gleifion neu aelodau eraill o'r cyhoedd, o gymharu â 4.6% o staff Gwyn
- dywedodd 14.5% o staff lleiafrifoedd ethnig eu bod wedi profi gwahaniaethu gan reolwr neu gydweithiwr arall, o gymharu â 6% o staff Gwyn.

Yn ogystal, roedd staff BME yn Lloegr yn llai tebygol na'u cyfoedion Gwyn o gael eu penodi o restr fer ymgeiswyr. Mae cyfyngiadau i'r dadansoddiad hwn o arolwg y GIG oherwydd nid yw'n nodi graddau cyflog. Mae'r canlyniadau, fodd bynnag, yn adlewyrchu'r hyn a glywsom gan weithwyr ar gyflogau is. Disgrifiodd cyfranogwyr ein hymchwil nifer o anfanteision canfyddedig yn y gweithle.

### Llai o gyfleoedd hyfforddi a diffyg cynrychiolaeth mewn rolau uwch

Dywedodd sawl gweithiwr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is a chyfranwyr eraill am ddiffyg cyfleoedd hyfforddi, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol. Nododd arolwg Sgiliau Gofal Lloegr[2] ddiffyg dilyniant gyrfa a chynrychiolaeth mewn swyddi uwch fel un o'r tair her uchaf sy'n wynebu gweithwyr o leiafrifoedd ethnig mewn gofal cymdeithasol.

Mae cymharu profiadau 2020 staff Gwyn y GIG a staff BME ar draws pob band cyflog yn Lloegr yn rhoi darlun cymysg. Mae canran y swyddi rheoli uchel iawn sydd gan staff BME wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf (o 5.3% yn 2017 i 6.8% yn 2020) ond mae'n parhau i fod ymhell islaw targed y GIG o 19%.

Ar y cyfan, roedd staff Gwyn ychydig yn fwy tebygol na staff BME o fanteisio ar hyfforddiant nad yw'n orfodol, er bod y gwahaniaeth yn fach iawn ac yn amrywio fesul rhanbarth (yn Llundain, De Ddwyrain a De Orllewin Lloegr, roedd staff BME yn fwy tebygol o gael mynediad at hyfforddiant o'r fath). Mae data a ddarparwyd gan Grwpiau Comisiynu Clinigol y GIG hefyd yn dangos bod staff BME yn gymharol fwy tebygol o fanteisio ar hyfforddiant anorfodol a datblygiad proffesiynol parhaus o gymharu â staff Gwyn.

Mae data'r GIG gan Grwpiau Comisiynu Clinigol yn Lloegr yn dangos mai dim ond 41% o staff BME oedd yn credu bod eu sefydliad yn darparu cyfleoedd cyfartal ar gyfer dilyniant gyrfa neu ddyrchafiad, o gymharu ag 88% o staff Gwyn.[3]

### Mwy o risg yn y gweithle

Dywedodd gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn ein hymchwiliad eu bod wedi cael tasgau risg uwch ac yn cael eu hadleoli i wardiau COVID-19 yn ystod y pandemig yn amlach na'u cydweithwyr Gwyn neu Gwyn Prydeinig. Dywedon nhw nad oedd ganddyn nhw ddewis ond parhau i weithio gyda mwy o risg oherwydd nad oedden nhw'n gallu fforddio cymryd amser i ffwrdd. Er y gallai'r mater hwn effeithio ar weithwyr o bob ethnigrwydd, roedd yn arbennig o ddifrifol i weithwyr mudol (gwladolion o'r tu allan i'r DU sy'n byw ac yn gweithio yn y DU). Yn nodweddiadol mae'r gweithwyr hyn yn destun rhyw fath o reolaeth mewnfudo heb unrhyw 'hawl at arian cyhoeddus' (cyfyngiad a roddir ar fisa person sy'n golygu na all person hawlio'r rhan fwyaf o fudd-daliadau, credydau treth neu gymorth tai a delir gan y wladwriaeth).

Canfu dadansoddiad UNSAIN o arolwg aelodau undeb, a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hwn, fod 67% o weithwyr Du ym mandiau 1 a 2 (y rhai ar y cyflogau isaf) wedi dweud eu bod wedi gweithio mewn wardiau COVID-19 rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020, o gymharu gyda 51% o'u cydweithwyr Gwyn yn yr un bandiau cyflog (yn ôl ymatebion gan aelodau sy'n gweithio ym maes gofal iechyd).

[2] Skills for Care (2020), Investigating the issues facing the BAME workforce and the impact of COVID-19 [cyrchwyd mis Ebrill 2022].

[3] NHS England (2021), Workforce Race Equality Standard 2020 Data analysis report for NHS Trusts and Clinical Commissioning Groups [cyrchwyd Ebrill 2022].

## Comisiynu a chontractio allanol yn arwain at gyflog gwael a gwaith ansicr

> Mae **comisiynu** yn cyfeirio at sefydliad sy'n awdurdodi darparwr (neu ddarparwyr) allanol i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan (er enghraifft, cartrefi gofal).
>
> Mae **contractio'n allanol** yn cyfeirio at gytundeb lle mae un cwmni neu sefydliad yn llogi cwmni neu sefydliad arall (a elwir yn drydydd parti) i redeg gweithgaredd a / neu wasanaeth a allai fod wedi cael ei redeg yn fewnol yn flaenorol (er enghraifft, glanhau).

Nid yw gweithwyr ar gontractau achlysurol, sef dim oriau yn cael eu gwarantu o unrhyw waith rheolaidd. Mae dadansoddiad 'Resolution Foundation' o'r Arolwg o'r Llafurlu (2017–2019) yn awgrymu bod un o bob 10 gweithiwr gofal rheng flaen ar gontractau dim oriau. Mae hyn yn llawer uwch na'r un o bob 40 o'r boblogaeth weithiol gyfan.

Yn Lloegr, nododd data a gynhyrchwyd ar gyfer ein hymchwiliad gan Skills for Care fod gweithwyr gofal lleiafrifoedd ethnig yn y sector gofal annibynnol yn fwy tebygol o fod ar gontractau dim oriau na'u cydweithwyr Gwyn Prydeinig. Roedd hyn yn arbennig o wir am weithwyr gofal cartref yn y sector annibynnol, lle'r oedd 71% o weithwyr lleiafrifoedd ethnig ar gontractau dim oriau o gymharu â 59% o weithwyr Gwyn Prydeinig ym mis Mawrth 2020. Mae'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn yn debygol o fod yn gymhleth, ac roedd archwilio pob un ohonynt y tu hwnt i gwmpas yr ymchwiliad hwn. Y canlyniad terfynol, fodd bynnag, yw gweithlu dwy haen. Mae staff o leiafrifoedd ethnig yn dueddol o gael eu gorgynrychioli mewn rolau sy'n talu'n is ac sy'n cael eu comisiynu'n allanol ac sy'n cael eu rhoi ar gontract allanol.

Roedd y rhai a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad yn cytuno bod cyfuniad o gyllid cenedlaethol annigonol ar gyfer gofal cymdeithasol a chomisiynu gofal eang yn lleol i ddarparwyr preifat yn cyfuno i greu amodau o gyflog gwael ac ansicrwydd swydd i'r rheini mewn rolau â chyflogau is. Mae hyn yn cael mwy o effaith ar weithwyr o leiafrifoedd ethnig sy'n fwy tebygol o fod yn gweithio mewn gofal annibynnol.

Ym maes gofal iechyd, mae llawer o rolau â chyflogau is, gan gynnwys glanhawyr ysbytai, porthorion ac arlwywyr, yn cael eu rhoi ar gontract allanol i gwmnïau preifat (yn enwedig yn Lloegr). Arweiniodd hyn at weithwyr yn teimlo'n ynysig ac wedi'u gwahanu oddi wrth eu gweithle. Maent yn aml yn cael eu talu llai ac mae ganddynt delerau ac amodau gwaeth na'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol. Mae rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau llafur, o'r farn bod gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is yn cael eu gorgynrychioli'n sylweddol yng ngweithrediadau GIG Lloegr ar gontract allanol. Cawsom dystiolaeth bod gwasanaethau GIG ar gontract allanol yn cael eu dychwelyd i fewnol oherwydd yr effaith negyddol ar weithwyr o leiafrifoedd ethnig.

## Ymwybyddiaeth isel o hawliau cyflogaeth

Mewn gofal cymdeithasol i oedolion, mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad yw gweithwyr yn aml yn ymwybodol o'u hawliau. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos gweithwyr gofal cartref. Yr oedd amryw resymau am hyn. Weithiau roedd hyn oherwydd rheolaeth 'unigryw' o weithwyr – yn enwedig yn achos rolau a gomisiynir. Cynyddodd slipiau cyflog aneglur a rhwystrau iaith i weithwyr mudol y diffyg ymwybyddiaeth hwn. Yn gyffredinol, nid oedd y rhai a oedd yn gweithio mewn rolau allanol ym maes iechyd yn aml yn ymwybodol o'u hawliau.

Y cefndir i'r mater hwn yw sector gofal cymdeithasol annibynnol hynod dameidiog, gyda nifer helaeth o ddarparwyr o wahanol feintiau a mathau. Mae'r defnydd o gontractau dim oriau a chomisiynu gwasanaethau yn eang. Mae gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o weithio yn y sector annibynnol ac, yn y sector hwn, o fod ar gontractau dim oriau.

Yn 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei chynlluniau i ddwyn ynghyd y cyrff gorfodi cyflogaeth presennol (Gorfodi Isafswm Cyflog Cenedlaethol Cyllid a Thollau EM, yr Asiantaeth Gyflogaeth a'r Arolygiaeth Safonau, a'r Asiantaeth Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur), i ffurfio Corff Gorfodi Sengl newydd ar gyfer hawliau cyflogaeth. Mae ein canfyddiadau'n amlygu'r rôl gadarnhaol y gallai'r sefydliad hwn ei chwarae wrth wella triniaeth a phrofiadau gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Dylai wella mynediad at wybodaeth am hawliau cyflogaeth a sut i gwyno, a sicrhau bod cyflogwyr yn bodloni eu rhwymedigaethau. Fodd bynnag, mae diffyg amserlen ddeddfwriaethol ar gyfer hyn yn creu ansicrwydd.

## Ofn codi pryderon a diffyg ffyrdd o wneud hynny

Clywsom fod gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflog is ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn llai tebygol o godi pryderon oherwydd eu bod yn ofni y gallent golli eu swyddi, yn enwedig os ydynt mewn rolau ansicr neu ar gontractau dim oriau. Nid ydynt yn meddwl y byddai rhywun yn gwrando arnynt nac yn cael eu hamddiffyn, nac y byddai eu hawliau'n cael eu cynnal. Dywedodd rhai cyfranwyr a gweithwyr wrthym fod y gweithwyr hyn weithiau'n cael eu herlid ar ôl codi pryderon. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau blaenorol o'r **Adolygiad 'Freedom to Speak up'** yn 2015, a sefydlwyd i roi cyngor ac argymhellion i sicrhau bod staff y GIG yn Lloegr yn gallu codi pryderon.

Mae mwy o gyfleoedd i weithwyr iechyd godi pryderon o gymharu â'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae arolygon staff y GIG (yng Nghymru a Lloegr) yn galluogi'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG i ddweud eu dweud am eu triniaeth a'u profiadau yn y gwaith. Mae'r Alban yn cynnal arolwg ar wahân ond nid yw'r canfyddiadau'n cael eu dadansoddi yn ôl hil, felly nid ydym wedi tynnu arno yn yr adroddiad hwn. Defnyddir data'r arolwg i wneud gwelliannau.

Fodd bynnag, mae gan arolygon gyfyngiadau. Gall diffyg mynediad at dechnoleg a rhwystrau iaith ei gwneud hi'n anodd ymgysylltu â gweithwyr ar gyflogau is, yn enwedig os yw'r arolwg yn defnyddio jargon heb ddarparu diffiniadau. Nid yw gweithwyr ar gontract allanol wedi'u cynnwys yn yr arolwg, sy'n golygu nad yw eu profiadau'n cael eu clywed. Nid oes opsiwn cyfatebol i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol fynegi eu barn a'u pryderon am eu cyflogaeth.

## Ein hargymhellion ar gyfer newid

Mae ein hargymhellion wedi'u hanelu at lywodraethau, awdurdodau lleol, darparwyr y GIG, a rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol. Maent yn cynnwys:

- darparu arweinyddiaeth gref mewn darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i fodelu ymddygiadau a ddisgwylir gan eraill a gwneud amrywiaeth a chynhwysiant yn flaenoriaeth
- sicrhau bod cyflogwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflawni eu Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) mewn ffordd dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n lleihau anghydraddoldeb hiliol
- gweithredu fframweithiau rheoleiddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i fynd i'r afael â materion anghydraddoldeb, gwneud gweithleoedd yn decach er mwyn gwella lles staff, a chodi safonau ac ansawdd gofal
- gwella ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth a chydymffurfio â nhw, gan gynnwys drwy gyflwyno cynigion i gyflwyno Un Corff Gorfodi
- datblygu ffyrdd hygyrch i weithwyr godi pryderon a chael mynediad at iawn os ydynt yn credu eu bod wedi profi gwahaniaethu
- darparu hyfforddiant gorfodol i reolwyr ar ymdrin â chwynion gweithlu, gan gynnwys yn ymwneud â bwlio ac aflonyddu ar sail hil
- gweithredu argymhellion heb eu gweithredu (o, er enghraifft, y Comisiwn Cyflogau Isel) ar gyflog isel a hyrwyddo Gwaith Teg, a
- datblygu strwythurau cenedlaethol ar gyfer casglu data'n well ar y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys data cydraddoldeb a chanlyniadau a phrofiadau cyflogaeth, i sicrhau cydraddoldeb yn y gweithle i bawb a chamau wedi'u targedu i gefnogi ethnigrwydd ar gyflog is gweithwyr lleiafrifol.

Rydym wedi cynhyrchu papurau briffio ychwanegol ar gyfer llunwyr polisi sy'n manylu ymhellach ar yr hyn yr ydym am ei weld yn benodol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

# Cysylltiadau



## Mae’r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o’n **gwefan**.

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at: **correspondence@equalityhumanrights.com**. Rydym yn croesawu eich adborth.

I gael gwybodaeth am gyrchu un o’n cyhoeddiadau mewn fformat arall, cysylltwch â: **correspondence@equalityhumanrights.com**.

Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am ein newyddion, digwyddiadau a chyhoeddiadau diweddaraf drwy gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr.

## Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (EASS)

I gael cyngor, gwybodaeth neu arweiniad ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu neu hawliau dynol, cysylltwch â’r **Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb (Equality Advisory and Support Service – EASS)**, gwasanaeth annibynnol rhad ac am ddim.

| | |
|---|---|
| Ffôn | **0808 800 0082** |
| Ffôn testun | **0808 800 0084** |
| Oriau | **09:00 to 19:00** (Dydd Llun i Ddydd Gwener)<br>**10:00 to 14:00** (Dydd Sadwrn) |
| Post | **LLINELL GYMORTH EASS RHADBOST FPN6521** |

© 2022 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Mehefin 2022

ISBN: 978-1-84206-858-8

Comisiwn
**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

**equalityhumanrights.com**

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

9 Mehefin 2022

Annwyl Jenny

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi cynnal sesiwn dystiolaeth yn ddiweddar gyda Cyfiawnder Tai Cymru ar y gwaith y mae'n ei wneud i ddarparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru. Yn dilyn y sesiwn honno, cytunodd yr Aelodau i wneud rhagor o waith ar hyn, ac felly rydym yn bwriadu cynnal sesiynau casglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol ar 22 Mehefin. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylwn ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn amlinellu ein pryderon uniongyrchol. Mae copi o'r llythyr ynghlwm.

O ystyried diddordeb eich Pwyllgor yn y maes hwn, hoffem wahodd eich Aelodau i ymuno â ni ar gyfer y sesiynau tystiolaeth ar 22 Mehefin. Mae nifer o sefydliadau wedi cael gwahoddiad i fynychu, gan gynnwys CLlLC, Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Oasis Caerdydd, Yr Eglwys yng Nghymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Cynhelir y sesiynau rhwng 10.40 a 12.30 a bydd Aelodau'n gallu mynychu'n bersonol neu drwy Zoom. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai Clercod y Pwyllgor gydgysylltu ynghylch presenoldeb yr Aelodau.

Yn gywir

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Jane Hutt AS,
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

26 Mai 2022

Annwyl Jane,

Gwyddoch y cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth yn ddiweddar gyda Cyfiawnder Tai Cymru ynghylch y gwaith y mae'n ei wneud i ddarparu cartrefi i ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru. Yn dilyn y sesiwn honno, cytunodd yr Aelodau i wneud gwaith pellach ar hyn, ac felly rydym yn bwriadu cynnal sesiynau casglu tystiolaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol ar 22 Mehefin. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylwn ysgrifennu atoch i amlinellu ein pryderon uniongyrchol.

Fe wnaethom ni glywed cefnogaeth i'r dull yng Nghymru o ddefnyddio canolfannau croeso i ddechrau i gartrefu pobl sy'n cyrraedd drwy lwybr uwch noddwr y cynllun Homes for Ukraine cyn iddynt symud naill ai i leoliad lletya, neu'n ddelfrydol i denantiaeth. Fe wnaethom ni hefyd glywed am rai o'r risgiau a all godi yn sgil trefniadau lletya anaddas.

Asesu addasrwydd lleoliadau lletya i sicrhau bod pobl yn cael lleoedd diogel i fyw ynddynt yw'r agwedd bwysicaf ar y cynllun. Dywedwyd wrthym fod sicrhau bod ymweliad cartref yn cael ei gynnal gyda phob lletywr posibl cyn lleoli rhywun i fyw gyda nhw yn elfen hanfodol o'r asesiad; a allwch chi gadarnhau a fydd pob lletywr yn cael ymweliad cartref, ac a gynhaliwyd ymweliad ymlaen llaw gyda'r rhai sydd eisoes yn lletywyr? A allech chi hefyd amlinellu pa hyfforddiant sydd wedi'i ddarparu neu a fydd yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n cynnal yr asesiadau?

Fe wnaethom ni glywed hefyd ei bod yn bosibl nad oes gan yr awdurdodau lleol hynny sydd heb eu stoc tai eu hunain y capasiti na'r arbenigedd i gynnal yr archwiliadau cartref angenrheidiol neu ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar deuluoedd agored i niwed. Gall y trydydd sector chwarae rhan bwysig o ran darparu'r cymorth hwnnw ar lawr gwlad, yn enwedig o ran cydnabod anawsterau posibl mewn lleoliadau a chamu i mewn pan fydd angen. A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi materion capasiti a'u cefnogi

i fynd i'r afael â'r rhain? Sut ydych chi'n sicrhau bod yr arbenigedd yn y sector gwirfoddol yn cael ei ddefnyddio?

Fe wnaethom ni glywed y dylai'r gwaith o asesu addasrwydd lleoliadau lletya hefyd edrych ar fynediad i ysgolion, gwasanaethau meddygol a gwasanaethau cymdeithasol, lle bo angen. Er y bydd awdurdod lleol yn cael £10,500 gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth a gwasanaethau cofleidiol, bydd yn hollbwysig gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau sector cyhoeddus lleol yn gallu ymateb i anghenion yr unigolion hynny. Fe wnaethom ni glywed pryder, er gwaethaf yr arian ychwanegol, y gallai fod yn heriol i wasanaethau cyhoeddus ymateb i'r galw cynyddol, o ystyried y pwysau sydd arnynt eisoes. Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau y gallant ymateb i'r cynnydd yn y galw am wasanaethau?

Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch argaeledd llety priodol i alluogi pobl i gael eu tenantiaeth eu hunain. Rydym yn ymwybodol o'r galw acíwt ar wasanaethau tai, gyda thua 10,000 o bobl mewn llety dros dro ar hyn o bryd, yn ogystal â ffoaduriaid o Afghanistan yn aros am lety parhaol o hyd. Rydym yn pryderu y gallai fod yn rhaid i bobl o Wcráin aros yn y canolfannau croeso am fwy na thri mis neu aros gyda'r teuluoedd lletyol yn hwy na'r chwe mis a ragwelwyd. Gallai cyfnodau hwy effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau lletya gan y gallai fod angen lle ar y lletywyr neu gallai perthnasoedd fynd dan straen, yn enwedig os bydd costau byw yn parhau i gynyddu. Fe wnaenthom ni glywed y bydd yn rhaid i ni 'edrych y tu allan i'r bocs o ran sut i ddarparu ar gyfer pobl ar ôl canolfannau croeso neu letya'. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod pobl o Wcráin yn gallu symud i lety tymor hwy o fewn chwe mis, a sut mae'r cynlluniau hyn yn cyd-fynd â threfniadau ar gyfer sicrhau llety parhaol i aelwydydd digartref sydd eisoes yn byw mewn llety dros dro?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eglurder ynghylch y cymorth ariannol a gynigir i letywyr. Deallwn fod £350 yn cael ei gynnig i letywyr am hyd at ddeuddeg mis. A ydych chi'n hyderus bod hyn yn ddigonol o ystyried y cynnydd mewn costau byw? A allwch chi gadarnhau pa gymorth ariannol fydd ar gael i letywyr pe bai eu lleoliad yn cael ei ymestyn y tu hwnt i ddeuddeg mis?

Fe wnaethom ni glywed bod Cyfiawnder Tai Cymru yn cynnal sesiynau gwybodaeth i bobl sy'n cynnig eu hunain i fod yn letywyr, ac am bwysigrwydd y sesiynau hyn o ran codi ymwybyddiaeth o'r ymrwymiad sydd ei angen ac o ran sicrhau mynediad at hyfforddiant a chymorth addas. A allwch chi egluro pa wybodaeth, hyfforddiant a chymorth sy'n cael eu darparu i letywyr ac a all pawb sy'n gwirfoddoli i fod yn letywyr yng Nghymru gael mynediad at sesiynau gwybodaeth?


Mae cael person i gysylltu â nhw mewn awdurdod lleol yn nodwedd allweddol arall o sicrhau lleoliad llwyddiannus. Fe wnaethom ni glywed mai'r pwynt cyswllt, yn ddelfrydol, yw'r person sydd wedi bod yn cymryd rhan yn y broses gyfan, gan gynnwys yr ymweliad cartref. Dylai hyn helpu pobl i feithrin perthynas fel eu bod yn teimlo'n gyffyrddus ac yn hyderus wrth godi materion sy'n peri pryder. A fyddech cystal ag amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob lleoliad yn gallu cysylltu â

pherson addas mewn awdurdod lleol a pha rôl y gall y sector gwirfoddol ei chwarae o ran darparu cymorth ychwanegol?

Mae pobl yn cofrestru i letya am chwe mis, ond gall amgylchiadau newid yn ystod y cyfnod hwnnw sy’n golygu bod lleoliadau'n methu. Mae’n hanfodol felly meithrin gwytnwch er mwyn ymateb i hyn. Fe wnaethom ni glywed bod cael lletywyr seibiant ar gael yn ddarpariaeth allweddol i ymateb i sefyllfaoedd o’r fath. Mae recriwtio pobl i letya am rai wythnosau i gynnig lleoliad seibiant ochr yn ochr â recriwtio'r rhai sy'n gallu cynnig cartref am chwe mis yn bwysig er mwyn sicrhau lleoliadau llwyddiannus. A ydych chi’n gallu amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â recriwtio pobl i ddarparu lleoliadau seibiant?

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 10 Mehefin fel bod modd ei ystyried ochr yn ochr â'n sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid.

Yn gywir



John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Mehefin 2022

Jenny,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn sgil cyflwyno Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) i'r Senedd ar 7 Mehefin 2022, amgaeaf gopïau o datganiadau o fwriad polisi. Darperir y dogfennau hyn i helpu'r Pwyllgor wrth iddo graffu ar y Bil.

Edrychaf ymlaen at ddarparu tystiolaeth i'r Pwyllgor maes o law.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Hannah Blythyn

Hannah Blythyn AS
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol

cc Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

## Y bwriad polisi ar gyfer rheoliadau, cyfarwyddiadau a chanllawiau

**Mehefin 2022**

# BILL PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A CHAFFAEL CYHOEDDUS (CYMRU)
# Y BWRIAD POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH, CYFARWYDDIADAU A CHANLLAWIAU

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth, y cyfarwyddiadau a'r canllawiau y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud neu y mae'n ofynnol iddynt eu gwneud o dan ddarpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (‘y Bil’). Mae wedi cael ei chyhoeddi er mwyn helpu'r Pwyllgor cyfrifol pan fydd yn craffu ar y Bil, a dylid ei darllen ar y cyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwella llesiant pobl Cymru, drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaethau cymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cymdeithasol gyfrifol.

Yn gryno, mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol;
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i geisio consensws neu gyfaddawd gyda'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015;
- dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015;
- diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith addas' o fewn y nod presennol ‘Cymru ffyniannus’ (un o'r nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf gyfrannu atynt);
- dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gynnal eu gweithgareddau caffael, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
- rhai cyrff cyhoeddus yn cyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu ceisio drwy gadwyni cyflenwi cyfan;
- gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael.

| Adran | Disgrifiad | Y Bwriad Polisi |
|---|---|---|
| **Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol** | | |
| 7(4)<br>7(6) | Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi set o weithdrefnau ar gyfer y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol sy'n amlinelli'r ffordd y bydd y Cyngor yn gweithredu. | Bydd gweithdrefnau'r Cyngor yn nodi manylion ffordd o weithredu'r Cyngor nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y Bil. Mae terfyn amser ar gyfer cyhoeddi'r gweithdrefnau hyn, sy'n dechrau'r diwrnod ar ôl i is-adran 7(4) ddod i rym, fel nad oes unrhyw oedi wrth i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ddod yn weithredol. |
| 9(2)<br>9(4) | Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi set o weithdrefnau ar gyfer yr is-grŵp caffael cyhoeddus sy'n amlinellu sut bydd yr is-grŵp yn gweithredu. | Yn debyg i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol, bydd gweithdrefnau'r is-grŵp yn nodi'r manylion gweithredol a'r ffordd y bydd yr is-grŵp yn cael ei sefydlu a'i lywodraethu. Rhoddir terfyn amser o chwe mis i’r rheini sy’n cyhoeddi’r gweithdrefnau hyn, sy'n dechrau pan fydd yr is-adran hon yn dod i rym, fel nad oes unrhyw oedi wrth i'r is-grŵp caffael cyhoeddus ddod yn weithredol. |
| **Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol – Cyrff Cyhoeddus** | | |
| 16 (3) | Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. | Wrth ystyried yr hyn sy'n rhesymol o dan adran 16(1) o'r Bil, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru.<br><br>Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried gwybodaeth a chyngor a dderbynnir gan y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar weithredu'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol, pan fyddant yn penderfynu a oes angen canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus a beth fydd cynnwys y canllawiau hynny. Mae'n bosibl y bydd y canllawiau’n ymdrin â'r ffordd |

| | | |
|---|---|---|
| | | mae staff a gweithwyr yn cael eu cynrychioli pan na fydd undeb llafur cydnabyddedig; beth yw 'penderfyniad strategol ei natur' mewn perthynas â'r camau rhesymol y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu cymryd (wrth arfer eu swyddogaethau) er mwyn cyflawni eu hamcanion llesiant o dan Adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015; natur y wybodaeth y dylid ei gwneud ar gael er mwyn hwyluso'r broses o drafod ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff eraill; neu faint o amser y dylid ei ganiatáu ar gyfer ymgynghori â thrafod ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff eraill.<br><br>Mae'n bosibl hefyd y bydd angen canllawiau ar y ffordd mae'r ddyletswydd i geisio cyfaddawd a chonsensws mewn perthynas â'r materion hyn yn wahanol i ofyniad syml i ymgynghori. |
| | | |
| **Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol** | | |
| 22(4) | Caiff Gweinidogion Cymru addasu, drwy reoliadau, ystyr 'awdurdod contractio', 'ardal awdurdod contractio' a'r rhestr o awdurdodau contractio sy'n cael eu cynnwys yn Atodlen 1. | Gelwir y cyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol yn ‘awdurdodau contractio’ a ddiffinnir y rhain fel y rheini a restrir yn Atodlen 1. Cafodd y cyrff hyn eu dewis yng ngoleuni materion sy'n cynnwys maint a natur eu gweithgareddau caffael. Mae'n bosibl y bydd angen newid y rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o bryd i'w gilydd gan gynnwys, o bosibl, pan fydd cyrff newydd yn cael eu creu, neu pan fydd enw neu weithgareddau corff yn newid. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gydag amser, mae'n bosibl y bydd cyrff eraill yn cael eu hychwanegu neu eu tynnu o'r rhestr, yn dibynnu ar y meini prawf hyn, neu gallai Gweinidogion ddewis newid y meini prawf hyn neu ddiffiniad ardal awdurdod contractio. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n caniatáu newid. |
| 24(8)(c) | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diffinio 'contract rhagnodedig' | Er bod y ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol yn berthnasol i holl weithgareddau caffael awdurdod contractio, mae'n rhaid cyhoeddi amcanion a gweithgareddau penodol mewn perthynas â'r categori o gaffael a ddisgrifir fel 'contractau rhagnodedig'. Mae'r rhain yn cynnwys contractau adeiladu mawr (a ddiffinnir yn adran 25), contractau allanoli gwasanaethau (a ddiffinnir yn adran 26) ac unrhyw wasanaeth sy'n cael ei ragnodi gan weinidogion Cymru.<br><br>Dim ond i gontractau adeiladu mawr a chontractau allanoli gwasanaethau y mae dyletswyddau rheoli contract penodol wedi cael eu cymhwyso ar yr adeg hon - ond yn y dyfodol caiff Gweinidogion Cymru ddewis cynnwys categorïau eraill yn y dyletswyddau rheoli contract hyn.<br><br>Y bwriad polisi yw bod y diffiniad o 'unrhyw gontract cyhoeddus arall' yn cael ei gysylltu â'r trothwyon ariannol eraill sy'n cael eu pennu gan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau ac sy'n cael eu diweddaru bob dwy flynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio'r categorïau gwariant a'r trothwyon ariannol sydd eu hangen i ddiffinio 'contractau rhagnodedig', yn unol â Chytundeb Masnach y Byd i ddechrau, a phan fyddant yn cael eu diweddaru.<br><br>Mae adran 21(2) yn egluro y dylid ymdrin â chontractau a ddyfernir o ganlyniad i gytundebau fframwaith (fel y'u diffinnir yn adran (45)(1) yn yr un modd â chontractau cyhoeddus eraill. |
| 25(3) | Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio diffiniad 'contract adeiladu mawr' drwy reoliadau. | Fel y'i disgrifir uchod, mae'r categori 'contractau rhagnodedig' yn cynnwys 'contractau adeiladu mawr', a ddisgrifir yn 25(2) fel gweithiau cyhoeddus, contractau gweithiau neu gontractau consesiwn gweithiau sydd â gwerth amcangyfrifedig o dros £2 miliwn, heb gynnwys TAW. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddiweddaru trothwy neu unrhyw agwedd arall ar y diffiniad hwn. |
| 27(1) a (2) | Bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol enghreifftiol i'w cynnwys mewn contractau adeiladau mawr, er mwyn cyflawni'r gwelliannau a restrir yn y tabl yn 27(2). Mae'r tabl yn categoreiddio'r gwelliannau hyn. | Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gymalau gael eu cynnwys ym mhob contract adeiladu mawr, a bod proses ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu drwy gadwyni cyflenwi cyfan.<br><br>Y bwriad yw y bydd y cymalau hyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â chanllawiau statudol a |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyhoeddir o dan adran 43 a fydd yn egluro sut y byddant yn cael eu gweithredu.<br><br>Mae'r categorïau y bydd y cymalau hynny'n berthnasol iddynt a'r gwelliannau sydd i'w cyflawni gan y cymalau hynny'n cael eu hamlinellu yn y tabl yn adran 27(2).<br><br>Mae'r adran hon yn pennu paramedrau ar gyfer y pynciau y byddant yn eu cynnwys. Mae'r categorïau y mae angen ceisio gwelliannau ynddynt drwy ddefnyddio'r cymalau sydd wedi cael eu drafftio fel a ganlyn (crynodeb):<br>• Talu yn brydlon<br>• Sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar waith<br>• Sicrhau y cydymffurfir â chyfraith cyflogaeth<br>• Darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr<br>• Darparu cyfleoedd is-gontractio ar gyfer busnesau bach a chanolig a sefydliadau gwirfoddol<br>• Rheoli amgylcheddol a chydnerthedd yr hinsawdd. |
| 30(4) | Mae hyn yn rhoi pŵer i wneud cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru y gellir ei ddefnyddio os nad yw awdurdod contractio yn rhoi rhesymau digonol pam nad yw'n bwriadu cynnwys cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr neu roi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod contractio gynnwys y cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol mewn contract adeiladu mawr, a rhoi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu, os asesir nad yw'r rhesymau a roddwyd dros beidio â'u cynnwys yn ddigonol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion roi cyfarwyddyd i awdurdod contractio, oherwydd efallai y bydd sefyllfa lle, er nad yw'r rhesymau a roddwyd gan yr awdurdod contractio dros beidio â chynnwys y cymalau yn ddigonol, efallai nad yw’n gwneud rhoi cyfarwyddyd yn ofynnol am resymau ymarferol eraill – ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. |
| 32(1) | Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymarfer allanoli gwasanaethau cyhoeddus a’r gweithlu, y mae'n rhaid i awdurdodau contractio ei ystyried. | Y bwriad polisi yw disodli’r Cod Ymarfer (dwy haen) ar Faterion y Gweithlu a'r canllawiau a'r nodyn cyngor caffael cysylltiedig, a gyhoeddwyd yn 2014. Ar hyn o bryd mae'r cod yn ganllawiau i helpu cyrff cyhoeddus pan fyddant yn trosglwyddo staff i drydydd parti fel rhan o gontract allanoli.<br><br>Nid yw amcanion y Cod newydd yn wahanol i amcanion yr hen God, ac maent yn cael eu hamlinellu yn (adran 33):<br>• sicrhau, pan fydd staff sector cyhoeddus yn cael eu trosglwyddo, fod telerau ac amodau eu cyflogaeth yn cael eu diogelu;<br>• sicrhau, pan fydd staff yn cael eu cyflogi wedyn i weithio ochr yn ochr â'r gweithlu a gafodd ei drosglwyddo, nad yw telerau ac amodau eu cyflogaeth yn llai ffafriol, a bod darpariaeth resymol yn cael eu gwneud ar gyfer pensiwn;<br>• ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio fonitro ac adrodd ar y ffordd mae'r Cod yn cael ei weithredu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Fodd bynnag, o dan y Bil bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio ystyried y Cod pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol o dan adran 24(5)(c) ac adran 26(1)(a).<br><br>Yn dilyn adolygiad o'r Cod presennol, mae angen diweddaru nifer o faterion yn y Cod newydd er mwyn rhoi sylw i ddatblygiadau diweddar a gwella'r Cod mewn ffyrdd eraill.<br><br>Bydd y Cod yn cynnwys cymalau contract enghreifftiol, y 'cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol' sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau a restrir uchod ac sy'n cael eu disgrifio yn adrannau 33 (a) i (c).<br><br>Rhaid i'r Cod, ac unrhyw adolygiad ohono wedyn, gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd. |
| 36(4) | Mae hyn yn rhoi pŵer i wneud cyfarwyddyd i Weinidogion Cymru y gellir ei ddefnyddio os nad yw awdurdod contractio yn rhoi rhesymau digonol pam nad yw'r bwriadu cynnwys y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli gwasanaethau, neu roi prosesau ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu gweithredu. | Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwydd i awdurdod contractio gynnwys y cymalau gweithlu cyhoeddus cymdeithasol mewn contract allanoli gwasanaethau, a rhoi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu os asesir nad yw'r rhesymau dros beidio â'u cynnwys yn ddigonol.<br><br>Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion roi cyfarwyddyd i awdurdod contractio, oherwydd efallai y bydd sefyllfa lle, er nad yw'r rhesymau |

| | | |
|---|---|---|
| | | a roddwyd gan yr awdurdod contractio am beidio â chynnwys y cymalau yn ddigonol, efallai nad yw’n gwneud rhoi cyfarwyddyd yn ofynnol am resymau ymarferol eraill – ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny. |
| 38(3) | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio neu'n ychwanegu at y categorïau o gynnwys y mae'n rhaid eu cynnwys yn y strategaeth gaffael a gyhoeddir gan awdurdod contractio. | Mae cyhoeddi strategaeth gaffael yn un o'r dyletswyddau a roddir ar awdurdodau contractio sydd wedi'u cynllunio i wneud gweithgareddau caffael yn fwy tryloyw. Nid yw'r Bil yn nodi yn fanwl yr hyn y dylid ei gynnwys yn y strategaeth, dim ond ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau nodi'r ffordd maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol ac i gymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion caffael cymdeithasol gyfrifol. Hefyd mae'n ofynnol iddynt gynnwys eu gweithdrefn ar gyfer talu'n brydlon<br><br>Mae llawer o awdurdodau contractio eisoes yn cyhoeddi strategaeth gaffael, a byddant yn cael eu hannog i barhau i gynnwys unrhyw faterion eraill y maent o'r farn ei bod yn briodol eu cynnwys, gan gynnwys caffael cymdeithasol gyfrifol.<br><br>Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n caniatáu i Weinidogion gynnwys unrhyw faterion eraill sydd i'w cynnwys mewn strategaethau caffael, ac i ddiwygio'r gofyniad i dalu o fewn 30 diwrnod. Disgwylir i Fil Diwygio Caffael y DU wneud darpariaeth i Weinidogion Cymru leihau'r gofyniad 30 diwrnod, a byddai gwneud hyn yn golygu arfer y pŵer hwn i wneud rheoliadau. |

| | | |
|---|---|---|
| 39(2)(e) | Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n diwygio neu'n ychwanegu at y categorïau o gynnwys y mae'n rhaid eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan awdurdod contractio. | Mae cyhoeddi adroddiad blynyddol yn un o'r dyletswyddau a roddir ar awdurdodau contractio sydd wedi'u cynllunio i wneud gweithgareddau caffael yn fwy tryloyw. Mae'r Bil yn crynhoi'r wybodaeth y mae angen ei chynnwys yn yr adroddiad:<br>• crynodeb o ‘gaffaeliadau rhagnodedig’<br>• i ba raddau y cafodd yr amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol eu cyflawni<br>• camau eraill y gellid eu cymryd yn y dyfodol i sicrhau y cyflawnir yr amcanion yn well<br>• crynodeb o weithgareddau caffael sydd ‘ar y gweill’ – caffael y disgwylir iddo gael ei gynnal yn y ddwy flynedd nesaf.<br><br>Am ei bod yn debygol y bydd y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr adroddiadau hyn yn debyg i'r deunydd sy'n gysylltiedig â chaffael yn yr adroddiadau blynyddol mae eisoes yn ofynnol i'r cyrff hynny sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 eu cyflwyno, y bwriad polisi yw bod yr adrodd yn gydgysylltiedig ac yn syml er mwyn lleihau'r llwyth gwaith ar gyfer yr awdurdodau contractio o dan sylw.<br><br>Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau'n caniatáu i Weinidogion Cymru ofyn i wybodaeth ychwanegol gael ei chynnwys mewn adroddiadau blynyddol. |

| | | |
|---|---|---|
| 40(2) | Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu, drwy reoliadau, ystyr 'contract cofrestradwy'. | Bydd yn ofynnol i awdurdodau contractio gyhoeddi a chynnal cofrestr o'r contractau maent wedi ymrwymo iddynt, gan gynnwys y dyddiad y dyfarnwyd y contract, enw'r contractwr, y mater dan sylw, y gwerth amcangyfrifedig, y dyddiadau dechrau a dod i ben disgwyliedig ac unrhyw opsiynau posibl ar gyfer estyn y contract.<br><br>Bydd y rheoliad hwn yn caniatáu i Weinidogion nodi, ymhlith materion eraill, y gwerthoedd disgwyliedig a'r mathau o gontract y mae'n rhaid eu cynnwys ar y gofrestr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gontractau sy'n llai na'r 'contractau rhagnodedig' a ddiffinnir yn y Bil a rheoliadau eraill. Mae'n debygol y bydd Bil Diwygio Caffael y DU yn cynnwys llawer o ddarpariaethau sydd â'r nod o gynyddu tryloywder, ynghyd â'r trothwyon ariannol cysylltiedig. Er mwyn lleihau'r llwyth gwaith ar awdurdodau contractio, y bwriad yw bydd y gofynion hyn yn cael eu symleiddio. |
| 43(1) a (2) | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar yr holl faterion sy'n ymwneud â Rhan 3 o'r Bil, yn enwedig Caffael Cyhoeddus Cymdeithasol Gyfrifol, i helpu awdurdodau contractio wrth wneud y canlynol:<br>• caffael mewn ffordd cymdeithasol gyfrifol;<br>• pennu amcanion a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni;<br>• gweithredu'r cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol a'r cod ymarfer allanoli contractau a'r gweithlu; | Bydd hyn yn caniatáu cyhoeddi canllawiau ar bob agwedd ar Ran 3 o'r Bil, ac nid y rheini a restrir yn yr is-adran ganlynol. Mae'n bosibl y bydd, ymhlith pethau eraill, yn amlinellu'n fanylach sut y byddai Ymchwiliad Caffael yn gweithio – er enghraifft, y dystiolaeth a allai sbarduno ymchwiliad a'r broses a fyddai'n cael ei dilyn.<br><br>Bydd canllawiau clir a manwl ar sut i gynnal pob gweithgaredd caffael mewn ffordd cymdeithasol |

| | | |
|---|---|---|
| | • paratoi strategaethau caffael ac adroddiadau blynyddol. | gyfrifol, gan geisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ei ardal. Bydd y canllawiau'n egluro sut y dylai fod modd addasu'r gofyniad hwn ar gyfer caffaeliadau â gwerthoedd a phroffiliau risg gwahanol. Ar gyfer ‘contractau rhagnodedig’ mwy, bydd y cyngor yn cynnwys sut i bennu amcanion priodol y gellir eu monitro neu eu mesur ac adrodd amdanynt.<br><br>Bydd y canllawiau'n cynnwys yr hyn mae angen ei ystyried ymhob categori yn ystod gwahanol gamau ymarfer caffael. Mae camau'n cynnwys pennu cwmpas y gofyniad a'r opsiynau ar gyfer caffael, profi'r farchnad, y fanyleb, paratoi cymalau contract, cynnal y contract, cytuno ar ddangosyddion perfformiad allweddol a rheoli'r contract a'r gadwyn gyflenwi.<br><br>Ym mhob un o'r categorïau llesiant bydd amryw ystyriaethau'n berthnasol. Er enghraifft:<br>• Yn y categori llesiant economaidd bydd angen ystyried a ddylid pecynnu'r gofyniad mewn ffordd sy'n annog cyflenwyr llai a chyflenwyr lleol i gyflwyno cynnig am gontractau neu is-gontractau, a dulliau ar gyfer gwella arferion talu o fewn cadwyni cyflenwi.<br>• Yn y categori llesiant cymdeithasol, bydd cyfleoedd ar gyfer gwella llesiant gweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a risgiau arferion cyflogaeth gwael yn cael eu hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Yn y categori llesiant amgylcheddol bydd ystyriaethau mewn perthynas â lleihau gwastraff, datgarboneiddio, caffael cynaliadwy, cydnerthedd yr amgylchedd a gwella'r amgylchedd naturiol ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys.<br>• Yn y categori llesiant diwylliannol bwriedir amlinellir canllawiau mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg.<br><br>Nid yw'r rhestrau'n cynnwys popeth.<br><br>Bydd angen cysylltu'r canllawiau statudol wedi'u datblygu ar gyfer y Bil hwn â chanllawiau eraill wedi'u datblygu i ategu deddfwriaeth Diwygio Caffael y DU, a llawer o'r canllawiau presennol sydd eisoes yn cael eu defnyddio.<br><br>Bydd cysylltiadau clir hefyd yn cael eu gwneud rhwng y canllawiau statudol hyn a Datganiad Polisi Caffael Cymru.<br><br>Bydd canllawiau'n cael eu datblygu i gefnogi'r dyletswyddau rheoli contractau ar gyfer prosiectau adeiladu mawr a gweithredu cymalau gweithiau cyhoeddus cymdeithasol. Bydd y rhain yn egluro sut y dylid defnyddio'r cymalau, gan roi enghreifftiau o brosesau y gellir eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Byddai enghreifftiau'n cynnwys sut y gellir defnyddio archwiliadau a phrosesau diwydrwydd dyladwy i sicrhau y cydymffurfir â |

| | | |
|---|---|---|
| | | chyfraith cyflogaeth ar gyfer gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi, defnyddio deunyddiau cynaliadwy a chydymffurfio wrth waredu gwastraff.<br><br>Bydd y canllawiau'n amlinellu manylion ymarferol ynghylch anfon hysbysiad at Lywodraeth Cymru os nad yw awdurdod contractio'n bwriadu cynnwys cymalau mewn gweithgaredd caffael perthnasol, ac yn rhoi proses ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu mewn cadwyni cyflenwi. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r broses hysbysu'n cael eu cynnwys, a bydd mecanwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer adrodd ar y canlyniad.<br><br>Mewn ffordd debyg, bydd Cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu’n cael ei gynhyrchu i ddiweddaru’r Cod presennol (dwy haen) ar Faterion y Gweithlu, a fydd yn amlinellu sut y dylid defnyddio'r cymalau enghreifftiol newydd, ynghyd â manylion ynglŷn â'r angen i anfon hysbysiad ar Lywodraeth Cymru, ynghyd â manylion y broses hysbysu.<br><br>Bydd canllawiau ar gyhoeddi strategaethau caffael yn cael eu datblygu, gan amlinellu'r hyn mae angen ei gynnwys a rhoi enghreifftiau.<br><br>Bwriedir y bydd y canllawiau ar gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn cynnwys manylion y data y mae'n rhaid ei gasglu ac adrodd arno yn erbyn pob un o'r amcanion caffael cymdeithasol gyfrifol a bennir. Mae gwaith wedi bod yn mynd |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhagddo ar ddiffinio canlyniadau a metrigau ar gyfer caffael wedi'u cysylltu â nodau llesiant, a bydd y rhain yn cael eu bwydo i mewn i'r canllawiau statudol. |